

Adrodd am achosion troseddol a rheoliadol

1 Yn *Arfer meddygol da*,¹ rydym yn nodi:

- 75 Rhaid i chi ein hysbysu yn ddi-oed os bydd unrhyw rai o'r sefyllfaoedd isod yn digwydd i chi, unrhyw le yn y byd:
 - a rydych wedi cael eich rhybuddio gan yr heddlu neu'ch beirniadu gan ymchwiliad swyddogol
 - b rydych wedi cael eich cyhuddo neu'ch canfod yn euog o gyflawni trosedd
 - c mae corff proffesiynol arall wedi gwneud canfyddiad yn erbyn eich cofrestrriad o ganlyniad i weithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith meddygol.

2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn nodi sut y gall meddygon weithredu'r egwyddorion hyn a'r hyn y dylech ein hysbysu ohono. Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestrriad.

3 Nid yw'r ddyletswydd i adrodd am achosion troseddol a rheoliadol yn newid yr amgylchiadau lle y bydd CMC yn ymchwilio i ymddygiad meddyg, neu'r trothwy er mwyn gweithredu ynghylch cofrestrriad.

Yr hyn y bydd yn rhaid i chi adrodd amdano

4 Rhaid i chi ddweud wrthym yn ddi-oed os bydd unrhyw rai o'r sefyllfaoedd isod yn digwydd i chi, unrhyw le yn y byd:

- a rydych yn cael eich canfod yn euog o gyflawni trosedd
- b rydych yn cael eich cyhuddo o gyflawni trosedd
- c rydych yn gwneud cyfaddefiad ffurfiol eich bod wedi cyflawni trosedd (er enghraifft, trwy dderbyn rhybudd,² gorchymyn penderfyniad cymunedol, gwarediad dewisol yng Ngogledd Iwerddon, neu ddewis dargyfeiriol megis rhybudd deallus neu rybudd, neu ddirwy ariannol yn yr Alban, neu thrwy ymrwymo i gytundeb cyfleuster datgelu cytundebol gyda Chyllid a Thollau EM, sy'n golygu eich bod yn cyfaddef eich bod wedi cyflawni twyll)

- d** rydych yn derbyn y dewis o dalu hysbysiad cosb am anrhefn yn unol â lefel gosb yr haen uchaf³ (yng Nghymru a Lloegr), hysbysiad cosb dan *Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2011*
- e** rydych yn cael rhybudd ynghylch canabis (yng Nghymru a Lloegr)
- f** rydych yn cael gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol,⁴ boed hynny o ganlyniad i achos sifil neu droseddol
- g** cyfyngwyd ar eich cofrestrriad neu fe'ch canfuwyd yn euog o gyflawni trosedd gan gorff meddygol neu gorff rheoliadol proffesiynol arall
- h** mae'ch ymddygiad (gan gynnwys fel rhan o dîm rheoli) wedi cyfrannu'n uniongyrchol at sefydliad sydd wedi ymrwymo i gytundeb erlyn gohiriedig.

Ymchwiliadau swyddogol

- 5** Os ydych chi wedi cael eich beirniadu gan ymchwiliad swyddogol unrhyw le yn y byd, rhaid i chi ddweud wrthym yn ddi-oed.
- 6** Trwy hyn, rydym yn golygu bod yn rhaid i chi ddweud wrthym os byddwch wedi cael beirniadaeth sy'n ymwneud â materion difrifol, y gallent fwrw amheuaeth ar eich addasrwydd i wneud gwaith meddygol gan yr unigolyn sy'n arwain naill ai:
 - a** ymchwiliad cyhoeddus/ffurfiol, neu
 - b** dribiwnlys cyhoeddus.
- 7** Mae tribiwnlysoedd ac ymchwiliadau cyhoeddus/ffurfiol; yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus ac yn ymchwilio i faterion sydd er budd y cyhoedd, ac maent yn cyhoeddi eu canfyddiadau.
- 8** Mae enghreifftiau o ymchwiliadau cyhoeddus/ffurfiol yn cynnwys, ond nid ydynt wedi cael eu cyfyngu i:
 - a** ymchwiliad a gynhelir dan *Ddeddf Ymchwiliadau 2005*
 - b** Comisiwn Seneddol neu Bwyllgor Dethol
 - c** unrhyw ymchwiliadau anstatudol eraill sy'n ymchwilio i faterion er budd y cyhoedd (a elwir yn ymchwiliadau adrannol weithiau) er enghraifft, ymchwiliad Hutton (yr amgylchiadau ynghylch marwolaeth Dr David Kelly) ac ymchwiliad Bichard (materion yn deillio o lofruddiaethau Soham)
 - d** Comisiwn Brenhinol
 - e** Cwest Crwner.
- 9** O ran tribiwnlysoedd cyhoeddus, rhaid i chi ddweud wrthym os ydych chi'n gwybod neu os ddylech chi wybod eich bod wedi bod yn destun beirniadaeth farnwrol (er enghraifft mewn achosion sifil neu droseddol) ynghylch materion difrifol y gallent fwrw amheuaeth ar eich addasrwydd i wneud gwaith meddygol.
- 10** Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn unrhyw ofynion adrodd y maent mewn grym yn eich sefydliad cyflogi neu gontractio. Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi ddweud neu i bwy y dylech ddweud, dylech ofyn am gyngor gan gorff amddiffyn neu gymdeithas feddygol.

Yr hyn na fydd angen i chi ddweud wrthym amdano

- 6** Ni fydd yn rhaid i chi ddweud wrthym am hysbysiad cosb benodedig am anrhefn oni bai ei fod yn cael ei nodi ym mharagraff 4. Ni fydd talu hysbysiad cosb benodedig am drosedd traffig ffyrdd neu hysbysiad cosb benodedig a gyhoeddir gan awdurdodau lleol (er enghraifft, am droseddau megis cŵn yn baeddu neu sŵn) yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd meddyg i wneud gwaith meddygol.

Dylech geisio cyngor os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth

- 12 Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddweud wrthym am unrhyw rai o'r materion a nodir ym mharagraff 4 neu 5, dylech ofyn am gyngor gan gorff amddiffyn neu gymdeithas feddygol, neu gennym ni.

Ôl-nodion

- 1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer Meddygol Da Llundain*, CMC.
- 2 Mae hyn yn cynnwys rhybudd amodol dan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003*.
- 3 Mae modd gweld rhestr o droseddau trwy droi at Wefan y Swyddfa Gartref
- 4 Mae'n berthnasol ar draws y DU.